HYSBYSIAD ETHOLIAD

Etholiad Senedd Cymru

Ar gyfer Etholaeth DE CLWYD

1. Caiff etholiad ei gynnal ar gyfer Aelod Etholaethol i wasanaethu yn y Senedd ar gyfer etholaeth De Clwyd.

2. Gellir cael papurau enwebu o swyddfa'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol, Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY.

3. Rhaid cyflwyno ffurflenni enwebu a ffurflenni cyfeiriad cartref i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY. Rhaid cyflwyno papurau enwebu rhwng 9am a 5pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn, ond heb fod yn hwyrach na **4 yr hwyr ddydd Iau 8 Ebrill 2021.** Nodir, os gwelwch yn dda, fod yn rhaid gwneud apwyntiad o flaen llaw. Gellir cyflwyno ffurflenni cydsynio i enwebiad trwy e-bost i electoral@wrexham.gov.uk.

4. Gellir talu'r ernes o £500 trwy gerdyn debyd neu gredyd, drwy ddrafft banc (gan fanc sy'n gweithredu yn y Deyrnas Unedig yn unig), arian neu drwy daliad electronig gyda chaniatad o flaen llaw.

5. Os ymleddir yr etholiad, cynhelir y bleidlais **ddydd Iau 6 Mai 2021.**

6. Rhaid i geisiadau cofrestru i bleidleisio yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY erbyn 12 hanner nos **ddydd Llun 19 Ebrill 2021.** Gellir cyflwyno cais ar-lein: www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio**.**

7. Rhaid i geisiadau, newidiadau neu achosion o ganslo pleidleisiau post gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY erbyn **5 yr hwyr ddydd Mawrth 20 Ebrill 2021.**

8. Rhaid i geisiadau i bleidleisio trwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY erbyn **5 yr hwyr ddydd Mawrth 27 Ebrill 2021.**

9. Rhaid i geisiadau brys i bleidleisio trwy ddirprwy yn yr etholiad hwn ar sail anabledd, am resymau gwaith/gwasanaeth neu'r angen i gydymffurfio â deddfiadau neu ganllawiau gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r coronafeirws gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY erbyn **5 yr hwyr ddydd Iau 6 Mai 2021.** Rhaid bod yr anabledd wedi digwydd ar ôl 5 yr hwyr ddydd Mawrth 27 Ebrill 2021. I wneud cais ar sail gwaith/gwasanaeth neu'r coronafeirws, rhaid bod y person wedi dod yn ymwybodol na all fynd i'r orsaf bleidleisio yn bersonol ar ôl 5 yr hwyr ddydd Mawrth 27 Ebrill 2021.

Dyddiad: 22 Mawrth 2021 **Ian Bancroft** **Y Swyddog Canlyniadau Etholaethol**

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau Etholaethol Neuadd y Dref, Wrecsam LL11 1AY.